# Tasg 2

**(Heriol, sbardun 1)**

Mae'r awdur yn sôn am gyfieithu i'r Saesneg. Mae'n bosibl cyfieithu o Saesneg i'r Gymraeg ar Google hefyd.
Dyma un enghraifft:

> We discovered many articles of clothing in the cupboard.
> ***Rydym yn darganfod nifer o erthyglau o ddillad yn y cwpwrdd.***

A dyma ddwy engraifft o'r darn darllen sydd wedi cael eu cyfieithu o Gymraeg i Saesneg ar Google:

> Gwario punnoedd ar lyfrau neu dalu dirwyon hyd eich braich yn y llyfrgell?
> ***Pounds spent on books or pay fines up your arm in the library?***
>
> Rydyn ni'n rhygnu ymlaen ac ymlaen am ailgylchu papur ac yn teimlo'n hunangyfiawn iawn pan welwn ni lond bocs o bapurau yn barod i gael eu hailgylchu.
> ***We dragged on and on about recycling paper and feel very smug when we see loads boxes of papers ready to be recycled.***

Tasgau:

i) Mae'r tri cyfieithiad uchod yn anghywir. Cywirwch nhw.

ii) Ysgrifennwch baragraff yn Gymraeg o blaid defnyddio Smartphone ac yna rhowch ef ar Google i'w gyfieithu i Saesneg. Os oes camgymeriadau ynddo cywirwch hwy.

iii) Ysgrifennwch baragraff yn Saesneg yn erbyn defnyddio Smartphones ac yna rhowch ef ar google i'w gyfieithu i Gymraeg. Os oes camgymeriadau ynddo cywirwch hwy.

Cyfeiriad y wefan yw: http//translate.google.com